



PRENTISIAETH CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A MARCHNATA DIGIDOL BYW'N IACH

Lefel y brentisiaeth


3

Lleoliad y swydd

**Plas Llanwnda,
Caernarfon**

Hyd y brentisiaeth

2 flynedd





Gair o groeso	1
Beth yw prentisiaeth?	2
Prentisiaeth Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol	3
Y buddiannau o ddilyn prentisiaeth	5
Y Broses Ymgeisio	7
Canllawiau ar Gyflwyno Cais	8
Beth sy'n gwneud y prentis perffaith?	10
Creu cais effeithiol	11
Y Broses Recriwtio	12
Gwefannau Defnyddiol	13

PRENTISIAETHAU CYNGOR GWYNEDD

Hoffem dy groesawu i llawlyfr Lawlyfr Gwybodaeth Prentisiaethau Cyngor Gwynedd!

Os wyt ti'n chwilio am y cyfle perffaith i ddatblygu dy yrfa ond ddim yn siŵr ymhle i ddechrau, gallai dilyn Prentisiaeth fod y cam nesaf i ti.

Nod ein llawlyfr yw cynnig arweiniad i unigolion sydd ar ddechrau cyfnod cyffrous wrth ddewis llwybr gyrfa, gan ddarparu trosolwg o'n cyfleoedd sydd yn rhan o Gynllun Prentisiaethau Cyngor Gwynedd.

Dim ond dechrau'r daith yw dilyn prentisiaeth gan ei fod yn gallu dy arwain i ddilyn nifer o lwybrau cyffrous, megis sicrhau swydd barhaol, neu ganiatáu i ti barhau i ddatblygu dy sgiliau gan ddilyn prentisiaethau ar lefelau uwch.

Rydym yn ffyddiog fod y mwyafrif or wybodaeth sydd ei angen arno ti i'w ganfod ar dudalennau'r pecyn, ond hoffem gymryd y cyfle hwn i bwysleisio ei fod yn becyn byw ac felly fe all newidiadau gael eu gwneud yn gyson wrth i'n amgylchiadau newid.

Rydym yn mawr obeithio y bydd y llawlyfr hwn yn dy ysbrydoli i ddilyn prentisiaeth ac y bydd ein cyfleoedd yn apelio ata ti.

Diolch am gymryd y cyfle i ystyried ein cyfleoedd prentisiaeth, a phaid ac oedi i gysylltu os oes angen unrhyw arweiniad pellach arno ti.

"Fel Cyngor, rydan ni eisiau sicrhau swyddi da i bobl Gwynedd ac fel un o gyflogwyr mwyaf y sir, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu gweithlu o safon i'r dyfodol. Trwy'r cynllun prentisiaethau'r Cyngor, byddem yn cynnig profiad o weithio ochr yn ochr efo swyddogion arbenigol, yn ogystal a sicrhau hyfforddiant, datblygu sgiliau a chymwysterau wrth weithio. Bydd y cynllun yn sylfaen wych i bobl sydd yn edrych i ddilyn gyrfa broffesiynol yma yng Ngwynedd ac yn cyfrannu at ein nod o sicrhau cyfleoedd swyddi da ar gyfer pobl ifanc y sir."

Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

Pan feddylwch chi am beth mae llywodraeth leol yn ei wneud, beth ydi'r peth cyntaf sydd yn dod i'ch meddwl chi: Casglu trethi, hel sbwriel neu redeg llyfrgelloedd efallai? Os mai un o'r atebion yma sydd yn dod i'ch pen chi gyntaf, rydych chi'n hollol gywir, ond mae'n bosib na fuasech yn ymwybodol o'r amrediad o wasanaethau a swyddogaethau eraill mae llywodraeth leol yn ymgymryd â hwy bob dydd. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ystod eang o wasanaethau ar draws ein Sir gan gynnwys addysgu ein plant, gofalu am ein pobl, glanhau ein strydoedd, edrych ar ôl ein llesiant a hybu ein busnesau lleol fel y gallent lwyddo. Y prif beth sydd yn ein galluogi ni fel Cyngor i lwyddo i wneud hyn yn fwy na dim yw'r staff sy'n gweithio yma. Mae'r Cyngor yn llawn pobl sydd wedi dewis gweithio yma oherwydd eu bod eisiau helpu pobl Gwynedd a gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau a'r amgylchedd rydym yn byw ynddo.

Geraint Owen

(Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)



BETH YW PRENTISIAETH?

Mae prentisiaeth yn gyfle i ti ddatblygu dy yrfa drwy **weithio gyda pobl profiadol, derbyn cymwysterau a chael cyflog yr un pryd!**

Mae prentisiaethau wedi eu llunio o amgylch fframweithiau a safonau sydd yn gyfuniad o gymwysterau sydd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol.

Er mwyn i ti fod yn brentis bydd rhaid i ti fod mewn cyflogaeth. Byddwn ni fel dy gyflogwr di yn cynnig profiadau yn y gweithle i ti yn y maes o'th ddewis, a byddwn yn dy gefnogi di i gwblhau dy brentisiaeth yn llwyddiannus.

Rydym ni fel Cyngor yn falch iawn o fod yn gallu cynnig cyfleoedd o'r safon uchaf i'n trigolion, ac yn edrych ymlaen i groesawu'n prentisiaid i'n sefydliad.



Cwestiynau Cyffredinol

Pwy sy'n cael gwneud cais am brentisiaeth?

Gall unrhyw un wneud cais am brentisiaeth os ydyn nhw dros 16 mlwydd oed, yn byw yng Nghymru ac nad ydynt mewn addysg lawn amser.

Ble fydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal?

Byddi'n cael dy ryddhau o'r gwaith, i astudio mewn Coleg neu Brifysgol neu byddi'n dilyn rhaglen dysgu o bell os yw'r ddarpariaeth yn y gweithle yn unig.

Sawl awr sy'n rhaid i brentis weithio?

Rhaid i Brentis gael ei gyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos.

Pa gymhwyster byddaf yn ei astudio?


Bydd hyn yn dibynnu ar y llwybr byddi di fel Prentis yn ei ddilyn. Mae'r fframweithiau Prentisiaethau yn cynnwys cymwysterau o bob lefel.

Beth fydd hyd y brentisiaeth?

Mae prentisiaeth yn cymryd rhwng 12 a 36 mis i'w gwblhau, yn ddibynnu ar ofnyion penodol y cymwysterau a'r lleoliadau.

Oes yna gyfyngiad o ran oedran?

Nac oes, ond mae pobl ifanc rhwng 16 i 19 oed yn cael blaenoriaeth.



BYW'N IACH

Pwrpas Byw'n Iach yw "cynnig gwasanaethau hamdden a ffitrwydd cynaliadwy o'r ansawdd uchaf i'n cymunedau, er mwyn gwella iechyd, lles, ffitrwydd a sgiliau pawb".

Maent yn cyflogi dros 250 o staff yn lleol er mwyn cynnal y gwasanaeth, ac mae ganddynt Gwmni Bwrdd o Gyfarwyddwyr sydd yn arwain y cwmni ar lefel strategol.

Mae gan Byw'n Iach 11 o safleoedd ar draws Gwynedd, sydd yn cynnig ystod eang o raglenni ffitrwydd, hyfforddiant, cyfleusterau nofio a chlybiau chwaraeon, a dyma gyfle gwych i ti fod yn rhan o'r tîm.



CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A MARCHNATA DIGIDOL

Mae defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol yn effeithiol yn rhan annatod o'n dulliau cyfathrebu erbyn hyn wrth geisio cynnig y gwasanaeth gorau i'n cymunedau.

Mae'r twf rheolaidd yn y maes yn golygu ein bod ni angen sicrhau bod gennym fwy o arbenigwyr yn y maes ac fod ganddynt y wybodaeth a'r profiad i ymgymryd â'r dyletswyddau rheini.

Mae'r brentisiaeth yn rhoi sylfaen dda i ddysgu am y maes. Yn ogystal â hyn, mae'r rhaglen yn darparu'r arfau sy'n galluogi prentisiaid i fod ar y blaen mewn maes sydd yn newid yn gyflym iawn.

Mae'r Brentisiaeth hon yn integreiddio dysgu academiaidd ac yn darparu profiadau gwerthfawr i'r unigolyn llwyddiannus fod yn gweithio yn y maes. O ganlyniad, bydd prentisiaid yn ennill profiadau ymarferol ac yn datblygu gwell dealltwriaeth o ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol.

Mae pwyslais y llwybr marchnata digidol ar farchnata e-bost, datblygu brand ac optimeiddio peiriannau chwilio gyda rhywfaint o sylw i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Mae pwyslais y llwybr cyfryngau cymdeithasol ar egwyddorion cyfryngau cymdeithasol ac offer rheoli cyfryngau cymdeithasol gyda rhywfaint o sylw i optimeiddio peiriannau chwilio a defnyddio geiriau allweddol.



Dyma ragflas o'r pynciau mae'n bosib y byddi di'n astudio:



A fyddai'r brentisiaeth yma'n addas i mi?

Rydym yn edrych i ddenu ymgeiswyr gyda diddordeb yn y maes Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol.

Byddwn yn croesawu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol a gyda amrediad o brofiadau, oed, llwyddiannau ac mewn rhai achosion, ymgeiswyr sydd wedi cwblhau cymwysterau yn barod (a all gyfrif tuag at y brentisiaeth).

Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol ond mae profiad mewn Technoleg Gwybodaeth yn ddymunol.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A MARCHNATA DIGIDOL

Pa gyfleoedd fydd ar gael i mi wrth i mi ddilyn fy mhrentisiaeth?

Bydd dilyn prentisiaeth yn agor llawer o ddrysau i ti ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ti ddatblygu dy sgiliau a pharatoi ar gyfer byd gwaith.

Datblygiad Rheolaidd

Rhan bwysig o wneud prentisiaeth yw sicrhau dy fod yn datblygu'n rheolaidd. Yn ystod y brentisiaeth cei dy asesu drwy gyfuniad o'r dulliau canlynol:

- Cwblhau portffolio tystiolaeth
- Arsylwadau yn y gweithle
- Tasgau a phroffion theori

Dulliau Cyflwyno

Mi fydd y brentisiaeth yn cael ei gyflwyno drwy gyfuniad o'r dulliau canlynol:

- Profiadau yn y gwaith
- Sesiynau yn y coleg i gwblhau rhai tasgau a phroffion theori

Y camau nesaf

Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus, bydd gen ti nifer o ddewisiadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg a'r byd gwaith.

Fe allet ti arbenigo neu ddewis swydd yn y meysydd canlynol:

- Cynorthwyydd Cyfryngau Cymdeithasol
- Cynorthwyydd Marchnata Digidol
- Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Dylunydd Gwefannau

BETH YW'R BUDDIANNAU O DDILYN PRENTISIAETH?

Mae llawer o fuddiannau byddet yn gallu elwa ohonynt wrth i ti ddilyn llwybr prentisiaeth. Dyma amlinellu dim ond ychydig ohonynt...

Datblygu sgiliau sydd yn hanfodol i'r swydd

Tra yn gweithio gyda staff profiadol, bydd cyfle i ti ddysgu gan aelodau o'r tîm, datblygu dy sgiliau a magu hyder yn dy faes.

01

02

Ennill profiadau gwerthfawr

Wrth i ti ymgymryd a rôl prentis bydd cyfle i ti ddysgu am dy gyfrifoldebau wrth i ti weithio. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gen ti brofiad blaenorol yn y maes, ac yn cynnig y cyfleoedd gorau posib i ti ddysgu!

Derbyn hyfforddiant o'r safon uchaf

Byddi di yn cwblhau cymwysterau gan weithio yn agos gyda sefydliad addysg. Bydd y sefydliad yn ddibynnol ar dy faes, ond mae pob sefydliad wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth o'r safon uchaf i'n prentisiaid.

03

04

Cwblhau cymwysterau cydnabyddedig yn dy faes

Mae'r cymwysterau rwyf ti yn eu dilyn yn sicr o agor drysau newydd i ti. Maent yn gymwysterau sydd yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr, ac mae meysydd ein prentisiaethau yn datblygu'n gyflym ar hyn o bryd.

Derbyn cefnogaeth a chymorth profiadol

Tra byddi yn gweithio yn dy faes, bydd gen ti fentor lleoliad, a mentor o'r Coleg a fydd yn cynnig cymorth i ti drwy'r cyfnod. Gallent dy helpu yn dy rôl o ddydd i ddydd, neu gyda dy waith coleg - dim ond gofyn sydd angen!

05

06

Datblygu dy hun

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pob aelod o staff i barhau i ddatblygu eu hunain wedi iddynt sicrhau swydd. Bydd cyfle i ti ddatblygu dy hun ymhellach a manteisio ar ein cyrsiau mewnol unwaith byddi yn dy rôl.

Ac wrth gwrs, drwy ddilyn prentisiaeth yng Nghyngor Gwynedd byddi di'n...

ENNILL
CYFLOG
TRA'N
GWEITHIO

Os nad yw mynd i'r Coleg neu Brifysgol yn teimlo fel y cam naturiol nesaf i ti, byddai dilyn prentisiaeth yn dy alluogi i **weithio, ennill cyflog, derbyn cymhwyster ac elwa o brofiadau gwerthfawr** byd gwaith. Os wyt ti yn byw yng Nghymru, dros 16 mlwydd oed, ac ddim mewn addysg llawn amser, gall prentisiaeth fod yn gyfle perffaith i ti ddatblygu dy yrfa.

GWEITHIO
MEWN
AWYRGYLCH
GYMREIG

Gallwn gynnig y cyfle i ti **weithio pob dydd mewn awyrgylch Gymreig**. Mae'r Gymraeg yn rhan o'n diwylliant ni, a byddai derbyn prentisiaeth gyda ni yn cynnig y cyfle perffaith i ti fod yn rhan o'r awyrgylch yma.

BETH YW'R BUDDIANNAU O DDILYN PRENTISIAETH?

Yn ogystal â hyn mae llawer o fuddiannau i'w cael wrth weithio i Gyngor Gwynedd:

- ✓ Byddi'n gweithio mewn awyrgylch Gymreig
- ✓ Bydd cyfle i ti fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- ✓ Bydd gen ti 24.5 diwrnod o wyliau, yn ogystal â 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus
- ✓ Byddi'n rhan o'n Cynllun Oriau Ystwyth
- ✓ Byddi'n elwa o ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol
- ✓ Manteisio ar gynllun beicio i'r gwaith
- ✓ Bod yn rhan o'r undeb credyd
- ✓ Elwa o ddisgownts mewn siopau lleol a chenedlaethol
- ✓ Cymryd mantais o'r Cynllun Chwarae Plant
- ✓ Cefnogaeth i chi gael bywyd iach

BETH YW CYFLOG PRENTIS?

Bydd y prentis yn derbyn cyflog sy'n unol â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Prentis (oed)	Graddfa / awr	Cyflog / flwyddyn
0 dan 18	£4.35	£8,392.37
18-20	£6.15	£11,865.07
21-24	£7.70	£14,855.46
25+	£8.21	£15,839.39

Y BROSES YMGEISIO



Cam 1:

Y Ffurflen Gais



Cam 2:

Profiadau



Cam 3:

Paratoi



Cam 4:

Y Ganolfan Recriwtio

Y Ffurflen Gais

- Defnyddia'r canllawiau sydd ar y wefan Brentisiaethau i lenwi dy gais.
- Cymer ofal o'th iaith, a chofia ail-ddarllen y cais cyn ei chyflwyno.

Profiadau

- Ceisia deilwra dy brofiadau i gyd-fynd a'r hyn rydym yn chwilio amdano.
- Defnyddia amryw o brofiadau sydd yn rhoi'r trosolwg gorau o dy sgiliau.
- Os nad wyt ti'n siŵr beth i'w gynnwys, hola ffrind, neu unigolyn sydd yn dy adnabod yn dda, am gyngor a syniadau.

Paratoi

- Byddai'n syniad da ymchwilio i'r Cyngor cyn ymgeisio er mwyn cael ychydig o wybodaeth cefndirol ynglŷn a'r heriau sydd yn ein wynebu ar hyn o bryd.
- Llunia frawddeg i ti dy hun yn crynhoi pam wyt ti eisiau ymgeisio a rhestra dy gryfderau - byddi di'n synnu o weld beth alli di ei gynnig i'r Cyngor!

Y Ganolfan Recriwtio

- Llongyfarchiadau ar gyrraedd y Ganolfan Recriwtio!
- Darllena dros dy gais, a gwna'n siŵr fod gen ti amryw o brofiadau rwyd ti'n gallu eu trafod ar y diwrnod.
- Cofia mai dyma yw dy gyfle di i arddangos dy sgiliau a'th botensial i fod yn brentis.
- Cofia pam dy fod di wedi ymgeisio, bydd yn ti dy hun, a mwynha'r diwrnod!

CANLLAWIAU AR GYFLWYNO CAIS

Mae'n bwysig fod dy gais yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd, ac wedi ei chyflwyno'n gryno ac eglur.

Dylet edrych yn ofalus ar **Pecyn Gwybodaeth a'r Manylion Person** i sicrhau fod dy gais yn ateb ein gofynion. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cynnwys Manylion am y Person gyda'u Swydd Ddisgrifiad. Mae Manylion am y Person yn y bôn yn rhestr o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i wneud y swydd yn dda.

Wrth gwblhau'r rhan Gwybodaeth Bellach yn dy Gais am Swydd, byddwn yn gofyn i ti ateb cwestiynau penodol gan ddilyn strwythur a chanllawiau, a chadw at y nifer geiriau. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r isod pan byddwn yn tynnu rhestr fer.



Galli ddefnyddio enghreifftiau o'th gyflogaeth, profiadau rwyd wedi eu cael drwy'r ysgol neu goleg, profiadau gwaith, hobiau neu/a gwaith gwirfoddol rwyd wedi eu cwblhau.



Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, rydym yn annog pob ymgeisydd i gwblhau'r ffurflen yn y Gymraeg.



Bydd dilyn y strwythur a'r canllawiau sydd ynghlwm a'r swydd ddisgrifiad yn fanteisiol i'th gais.



Pan byddi'n disgrifio dy enghreifftiau, dylet fanylu ar dy sgiliau, cryfderau a phrofiadau.

Sgiliau – Yr hyn yr wyt ti'n gallu ei wneud.

Cryfderau – Y sgiliau yr wyt yn eu gwneud orau.

Profiadau – Yr hyn y rwyd wedi'i wneud sy'n arddangos dy sgiliau a'th gryfderau.

CANLLAWIAU AR GYFLWYNO CAIS

PWYNTIAU PWYSIG (y byddwn yn eu hystyried wrth lunio rhestr fer)

- Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, rydym yn eich annog i gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg
- Bydd dilyn y strwythur a'r canllawiau isod yn fanteisiol i'ch cais
- Yn eich enghreifftiau, dylech fanylu ar beth wnaethoch chi a'r effaith a gafodd

1. PAM YMGEISIO AR GYFER Y BRENTISIAETH YMA?

Eglurwch pam yr ydych yn ymgeisio am y brentisiaeth yma'n benodol.

Cofiwch sôn am eich diddordeb yn y maes a pham fod y brentisiaeth yma'n apelio atoch chi.

Dim mwy na 250 o eiriau.

2. YMDDYGIAD AC AGWEDD BRIODOL

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi ymddwyn yn briodol a phroffesiynol neu ymateb yn bositif i sefyllfa anodd – e.e. dangos parch, agwedd bositif, cydweithio, ysgogi pobl, defnyddio iaith briodol.

Dim mwy na 150 o eiriau.

3. YMRWYMIAD I WAITH

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfrannu at ganlyniadau o werth wrth weithio ar dasg neu brosiect.

Dim mwy na 150 o eiriau.

4. CYFRANNU AT LWYDDIANT

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfrannu at lwyddiant prosiect neu ddigwyddiad.

Dim mwy na 150 o eiriau.

5. GWEITHIO FEL RHAN O DÎM

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos chi weithio yn effeithiol fel rhan o dîm.

Dim mwy na 150 o eiriau.

6. CYFATHREBU GYDA HYDER

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos i chi gyfathrebu'n hyderus ar lafar neu'n ysgrifenedig gydag unigolion neu grŵp.

Dim mwy na 150 o eiriau.

7. PARODRWYDD I DDYSGU

Disgrifiwch un digwyddiad sy'n dangos eich parodrwydd i ddysgu.

Dim mwy na 150 o eiriau.

8. YMWBYYDDIAETH O BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR

Eglurwch pam eich bod eisiau gyrfa gyda'r Cyngor.

Dim mwy na 150 o eiriau.

BETH SY'N GWNEUD Y PRENTIS PERFFAITH?

-  **DANGOS YR YMDDYGIAD AC AGWEDD CYWIR**
 - Bod yn deg a gallu trin pobl gyda pharch
 - I fod yn gymwynasgar ac yn gwrtais
-  **DANGOS YMRWYMIAD I WAITH**
 - I fod yn gyfrifol am wneud y dyletswyddau a chyfrifoldebau rôl prentis i'r lefel uchaf bosib
 - I gyflawni pob dyletswydd sy'n ofynnol
 - Deall pwysigrwydd cyfle cyfartal
-  **CYFRANNU TUAG AT LWYDDIANT**
 - Cyfrannu tuag at lwyddiant y sefydliad, y tîm a'r gwasanaeth
 - Gallu trefnu dy amser dy hun a chyflawni tasgau o werth
-  **GWEITHIO FEL RHAN O DÎM**
 - Gallu gweithio mewn tîm
 - I gyfrannu at gyfarfodydd tîm a chyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol gydag aelodau eraill y tîm
-  **CYFATHREBU GYDA HYDER**
 - Y gallu i gyfathrebu gyda hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg
 - Y gallu i ddangos y sgiliau cywir i allu cyfathrebu yn gywir ar gyfer unrhyw gynulleidfa
-  **PARODRWYDD I DDYSGU**
 - I ymrwymo i'th ddatblygiad i gyflawni dy swydd a'r brentisiaeth
 - Adnabod anghenion datblygu personol yn barhaus a gweithredu arnyn nhw
-  **YMWYBYDDIAETH O BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR**
 - Deall y sialensiau sydd yn ein wynebu fel Cyngor
 - Manteisio ar gyfleoedd i fod yn greadigol ac yn arloesol
 - Sicrhau dy fod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr wyt yn ei wneud

CREU CAIS EFFEITHIOL

Wyt ti yn awyddus i lenwi ffurflen gais ond ddim yn siŵr sut i strwythuro dy atebion?
Beth am ddefnyddio'r dull PREP?

P

Pwynt

Dechreuwa drwy ateb y cwestiwn: "Rwy'n credu bod..."

Rwy'n credu mai un o fy mhrif gryfderau yw fy sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.

R

Rheswm

Yna rho eglurhad: "A'r rheswm pam rwy'n credu hynny yw..."

Rwy'n credu hyn gan fy mod yn gallu strwythuro fy atebion yn glir ar bapur ac am fy mod yn cymryd amser i lunio fy ateb cyn ei gofnodi.

E

Enghraifft

Darpara enghraifft sy'n cefnogi dy sefyllfa: "Er enghraifft, dim ond yr wythnos diwethaf..."

Er enghraifft, llwyddais i berswadio fy nghyngor ysgol fod angen gwisg newydd ar ein tîm pêl droed drwy ysgrifennu llythyr atynt.

P

Pwynt

Gorffenna drwy grynhui dy bwynt: "A dyna pam rwy'n credu bod..."

Credaf fod hyn yn enghraifft dda o sut rydw i wedi llwyddo gan ddefnyddio fy sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig.

Y BROSES RECRIWTIO

Dyma drosolwg o'r broses recriwtio:

CAM	BETH?	SUT?	PRYD?
1	Cais ar-lein	- Cwblhau cais ar-lein. - Byddwn yn tynnu rhestr fer erbyn y 24.05.19 - Byddwn yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn unig. Bydd lle i hyd at 4 ymgeisydd ar gyfer CAM 2.	09/05/19 hyd at 23/05/19
2	Canolfan Recriwtio	Bydd y Ganolfan Recriwtio yn gyfuniad o dasgau a chyfweliad.	07/06/19
3	Penodi	Byddwn yn penodi ar sail asesu'r wybodaeth o'r ganolfan recriwtio a geirda.	i'w drafod gyda'r ymgeisydd llwyddianus

Bydd yn rhaid sicrhau eich bod ar gael i ddod i Gaernarfon ar ddyddiad **CAM 2**.

Mae'r **Ganolfan Recriwtio** yn gyfle gwyh i ti ddangos dy botensial i fod yn brentis.

Os nad wyt ti'n gyfarwydd â Chanolfan Recriwtio, dyma ychydig o bwyntiau allai fod o gymorth i ti:

- Prif bwrpas y Ganolfan Recriwtio ydi sicrhau dy fod yn cael y cyfle i ddangos dy botensial, ymddygiad ac agwedd.
- Mi fyddwn ni'n asesu ymgeiswyr gan ddefnyddio egwyddorion y Prentis Perffaith.
- Mi fydd y Ganolfan Recriwtio yn cynnwys dau dasg a chyfweliad.
- Mi fydd y ddau dasg yn rhoi ffocws ar gynnwys yr elfennau canlynol – cyfathrebu a chreadigrwydd, ymddygiad ac agwedd.
- Yn ystod y cyfweliad, mi fyddwn yn gofyn pum cwestiwn. Byddwn yn rhoi copi o'r cwestiynau yma i bawb ychydig cyn y cyfweliad. Mi fydd disgwyl i chi ateb un o'r cwestiynau yn y Saesneg.
- Paid a phoeni, mi fyddwn ni'n cyflwyno'r disgwyliadau yn llawn ar y dechrau.

AMSERLEN Y CYNLLUN

Dyma amserlen debygol y Cynllun ar gyfer 2019-2021.

PRYD?	BETH?
Mai 2019 Mehefin 2019 Gorffennaf 2019 Gorffennaf 2021	Hysbysebu'r swydd a chadarnhau'r rhestr fer. Canolfan Recriwtio a phenodi. Dechrau'r brentisiaeth ac amser cynefino Cwblhau'r brentisiaeth.



GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Gwefan Cyngor Gwynedd

www.gwynedd.llyw.cymru/prentisiaethau

www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

Gyrfa Cymru

www.careerswales.com

Gwirfoddoli

www.mantellgwynedd.com